Y Gerdd Werdd – Gwyneth Glyn

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
Sgen ti	A oes gennyt ti
trugareddau	mân bethau
crochan	llestr crwn ar gyfer berwi pethau
echdoe	y diwrnod cyn ddoe

Cadno Coch – Eurig Salisbury

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
dacw	dyna, 'co, gwelwch fan yna
Dacw'r cadno	There's the fox
loncian	rhedeg yn araf ond yn gyson (*jog*)
llwyn	planhigyn prennaidd sy'n llai na choeden (*bush*)
pwyll	y cyflwr o fod yn wyliadwrus a gofalus (*caution*)
Mae'n cadw ei bwyll	Mae'n parhau i fod yn wyliadwrus
oedi	aros am ychydig

Help – Casia Wiliam

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
taenu	lledu; ymestyn
brech	smotiau dros y corff sy'n arwydd o haint (*rash*)
a orchuddiai	oedd yn gorchuddio
ynghyd	gyda'i gilydd

Sŵn – T. Llew Jones

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
Liw nos	yn nhywyllwch y nos
ni chlywir	ni all neb glywed
medden nhw	maen nhw'n dweud
hwtian	y sŵn y mae tylluan yn ei wneud
gwdi-hŵ	tylluan
udo	sŵn tebyg i flaidd
ar fy ngair	rwy'n addo
llofft y gwair	ystafell uwchben stabl i gadw gwair neu wellt
crawcian	sŵn cras fel crawc brân neu froga
ar fy ngwir	rwy'n addo
Pan ddring y lloer	pan fydd y lleuad yn dringo
Pan gilia pawb	pan fydd pawb yn cilio (cilio = ymadael)
clos	buarth fferm

Garddwyr Oll – Karen Owen

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
cymalau	y mannau hynny yn y corff lle mae dau asgwrn yn ffitio at ei gilydd (*joints*)
hirben	deallus a doeth
balu (palu)	torri a chwalu pridd
mud	heb eiriau neu heb sŵn
y gŵel	y bydd ef yn gweld
gŵyr y garddwr	mae'r garddwr yn gwybod
ymaflyd	cydio yn; dal gafael yn; mynd i'r afael â
rhod	olwyn; mae'r ymadrodd 'troad y rhod', serch hynny, yn golygu 'newid tymor' e.e. pan fydd y gaeaf yn troi'
dadmer	dadlaith; meirioli (h.y. effaith gwres ar rywbeth sydd wedi rhewi)
gohirio	symud i ryw amser yn y dyfodol

Tân yn y Dŵr – Einir Jones

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
cynffonna'	cynffonnau
gwibio	symud yn gyflym o fan i fan
ymfflamychu	tanio yn fflamau
ogla'	oglau
noson gei-ffocs	noson tân gwyllt (*Guy Fawkes*)
ddofi (dofi)	gwneud yn ddof, tawelu
amgyffred	deall
ogoniant (gogoniant)	ysblander, gwychder